COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 1 MEDI 2021, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | J Gebbie | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| RMI Shaw | T Thomas | A Williams | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Howells a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Stuart Baldwin | Cabinet Member Communities |
| Cynghorydd Nicole Burnett | Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd |
| Cynghorydd Charles Smith | Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio |
| Cynghorydd Hywel Williams | Dirprwy Arweinydd |

31. DATGAN DIDDORDEB

Dim

32. CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD: Fod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Sgriwtini dyddiedig 9 Mehefin 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

33. MONITRO CYLLIDEB 2021-22 – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 1

Diweddarodd y Prif Swyddog Interim Cyllid, Perfformiad a Newid yr Aelodau ynglŷn â sefyllfa refeniw ariannol Y Cyngor ar gyfer chwarter un ar 30 Mehefin 2021 gan nodi fod amser wedi mynd heibio ers i hyn gael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf ac y byddai'n tynnu sylw at rai o'r prif themâu.

Atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor, yng nghyfarfod 24 Chwefror 2021, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £298.956m ar gyfer 2021-22 ac mai dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf yn wyneb y gyllideb honno. Roedd Tabl 1 yn cynnig crynodeb o'r wybodaeth ac

yn nodi’r sefyllfa debygol oedd yn dangos gorwariant tebygol o £1m er iddi atgoffa’r Aelodau fod adroddiad alldro yn cynnig darlun go wahanol ar y pryd yn bennaf oherwydd bod symiau sylweddol o arian Covid a grantiau ychwanegol a nododd y byddai Aelodau’n gweld heriau ariannol yn amlygu eu hunain mewn sawl cyllideb. Roedd hyn yn amlwg wrth symud 2il Chwarter gyda heriau penodol o safbwynt Gofal Cymdeithasol i Oedolion ledled Cymru. Roedd yn awyddus i Aelodau ddeall fod yr heriau hynny yno o hyd, a’i bod yn bwysig fod Aelodau’n edrych ar yr heriau gwaelodol sylweddol oedd yn wynebu rhai o’r gwasanaethau ac yn osgoi meddwl bod y sefyllfa ariannol yn ymddangos yn dda iawn o ystyried yr adroddiad alldro.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Dabl 1, gan nodi fod cronfa adfer Covid o £1m wedi’i sefydlu a’i defnyddio’n ofalus ar gynnig parcio graddol, codiadau incwm rhent graddol ar gyfer eiddo rhent BCBC, hepgor ffioedd chwaraeon, chwarae haf ayb., nad oedd modd hawlio’r un ohonynt yn erbyn cronfa caledi am nad oedd modd hawlio ar sail penderfyniadau lleol.

Roedd Tabl 2 yn rhoi syniad o hawliadau Covid, gan nodi fod heriau o hyd ar dreth y cyngor a’r cynllun lleihau’r dreth cyngor a disgwylir caledi ariannol wrth i ffyrlo fynd rhagddo. Roedd lleihad o 1% yn nhreth y cyngor sy'n gyfystyr â £1m a doedd dim cefnogaeth ar gael eto oddi wrth Lywodraeth Cymru (LlC). Nodwyd yn 4.1.13 fod cyflog a phrisiau’n dal yn anwadal ac nad oedd codiadau cyflog eto’n glir er bod rhai arwyddion y byddai rhywfaint o gyflog yr athrawon yn cael ei ariannu’n ganolog. Roedd chwyddiant yn dal i fod ar lefel gymharol uchel ac nad oedd hynny’n rhywbeth y cynlluniwyd ar ei gyfer felly roedd angen sicrhau fod digon o arian yn y gyllideb brisiau.

Roedd Tabl 3 yn nodi arbedion y flwyddyn flaenorol a gyflawnwyd yn bennaf er bod diffyg o £310k o hyd a oedd yn annhebygol o gael ei gyflenwi ac roedd angen rhoi ystyriaeth i hynny.

Roedd Tabl 4 ac Atodiad 2 yn dangos perfformiad y flwyddyn a oedd yn gryn lwyddiant ar sawl lefel o dan amodau anodd. Roedd pob arbediad yn debygol o gael eu cyflawni ar wahân i adleoli’r ganolfan ailgylchu a oedd wedi’i ohirio.

Roedd angen parhaus am arbedion dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022-2023 tan 2025-2026 a nodwyd o flaen amcan y byddai angen £22m pellach yn ddibynnol ar lefel setliad LlC.

Roedd Paragraff 4.3 o’r adroddiad ymlaen yn cynnig manylion pellach yn ymwneud â phob Cyfarwyddiaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid am ei chyflwyniad ac aeth Aelodau’r Pwyllgor ati i holi’r canlynol:

Cyfeiriodd Aelod at y gronfa adfer Covid a gofyn a oedd yr adferiad arian hwn, e.e., y £35k a roddwyd i gostau parcio ceir, wedi bod yn llwyddiannus.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol er mwyn hybu nifer yr ymwelwyr, fel rhan o'r adferiad yn dilyn Covid, gwnaed cynnig tair awr yn rhad ac am ddim ym maes parcio'r Rhiw ym Mhen-y-bont ar Ogwr a pharcio am ddim rhwng 12 a 3 o'r gloch yn Stryd John Street, Porthcawl. Yr hyn a oedd yn anhygoel o anodd ei wneud oedd amcangyfrif y nifer yn erbyn y norm gan nodi bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng yn ystod y pandemig i ddechrau ac er bod y niferoedd yn codi, doedd y lefelau arferol ddim wedi’u cyrraedd o hyd, felly roedd yn anodd iawn mesur y llwyddiant.

Holodd yr Aelod am ychydig mwy o fanylion ar y rhaniad yng nghyswllt y gronfa adfer Covid o £1m.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall fod y swm rhwng £100k - £120k yng nghyswllt costau chwaraeon a thua £18k i £20k yng nghyswllt y cynnig parcio ceir, er y gellid darparu manylion llawn i'r Pwyllgorau y dymunent.

Eglurodd yr Arweinydd, yng nghyswllt y gweithgareddau chwarae dros yr haf, fod Y Cyngor wedi cynllunio buddsoddiad pellach er mwyn darparu amrediad cynhwysfawr o weithgareddau chwarae dros yr haf ar gyfer plant a phobl ifanc ond yna, roedd LlC wedi darparu pedair gwaith y swm o nawdd a gynigiwyd fel arfer. Dyma enghraifft o ansicrwydd y gyllideb, gan nodi fod Y Cyngor yn parhau i bledio'u hachos gyda LlC am gyllid ar gyfer yr heriau ychwanegol hynny.

Awgrymodd y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid y gellid cylchdroi manylion y gyllideb adfer Covid ymysg Aelodau.

Holodd yr Aelod beth oedd y gwir ofynion o safbwynt hawlio ar gyfer colli incwm. Nododd fod llawer o'r £2.127m yn cael ei ddal neu yn yr arfaeth a gofynnodd a oedd hyn yn rhoi pwysau ar y Cyngor wrth i staff geisio coladu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer LlC.

Cydnabu'r Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid fod y ceisiadau Covid wedi bod yn bwysau mawr ac yn gofyn am lawer iawn o waith ychwanegol nid yn unig o safbwynt yr Adran Gyllid ond o safbwynt y Gyfarwyddiaeth hefyd, er bod gan Y Cyngor berthynas dda iawn â Swyddogion LlC yn nhermau eglurdeb o ran yr hyn y gellid ei hawlio ac o ganlyniad roedden nhw wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth hawlio costau yn ôl. Mewn gwirionedd, roedd bron fel rhedeg dwy system ariannol e.e. costau Covid, colledion incwm Covid a cholledion yn nhreth y cyngor ac eraill mewn meysydd ar wahân.

Ar sail gohiriad yr oedd y £2m yn cael ei ddal, am fod Y Cyngor bellach wedi derbyn rhywfaint ohono, er nad oedd ganddi ffigwr pendant wrth law ond roedd yn obeithiol y byddai'r rhan fwyaf ohono'n cael ei dderbyn. Ymysg y prif feysydd colledion incwm roedd Halo a hamdden a'r parcio ceir y crybwyllwyd eisoes. Roedd hi wedi bod yn bosib hawlio am barcio ceir y llynedd, ond doedd hynny ddim yn bosibl bellach.

Nododd Aelod fod tudalen 19 yr adroddiad yn cyfeirio at gyllideb net ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a thanwariant o dros £600k ond roedd tudalen 20 yn cyfeirio at swyddi gwag ac oedi o safbwynt gweithredu ailstrwythuro a gofynnodd am eglurhad pellach yn y cyswllt hwn.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y sefyllfa o safbwynt gofal cartref a gofal a chymorth yn y cartref yn un anodd ei hegluro a'i deall. Roedd lefelau uchel o swyddi gwag o safbwynt y gwasanaeth mewnol gyda thrafodaethau'n seiliedig ar ailstrwythuro'n cael eu cynnal nawr. Doedd dim brys mawr, yn nhermau recriwtio ar gyfer y swyddi gwag mewnol, ac ychydig symud yn nhermau bod yn fwy hyblyg yng nghyswllt cytundebau mewnol. Roedd ambell her systemig hefyd a oedd angen mynd i'r afael â nhw. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am ofal a chymorth yn y cartref, gyda darparwyr o'r sector annibynnol yn darparu mwy o ofal a chymorth yn y cartref nag erioed o'r blaen. Serch hynny, doedd hynny'n dal ddim yn ddigon i gyflenwi'r anghenion a'r galw am wasanaethau gofal cartref er gwaetha'r symiau sylweddol o arian oedd yn cael eu buddsoddi ym maes gofal a chymorth yn y cartref.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn treulio'u hwythnosau'n edrych ar ffigyrau ac nad oedd cydbwysedd o fewn y gwasanaethau gofal, ac y byddai'n anodd iawn adfer y cydbwysedd hwnnw nes y gellid mynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â'r gweithlu drwy recriwtio. Roedd angen ymateb i ofynion a thalu er mwyn sicrhau fod trigolion yn derbyn gofal, felly roedd blaenoriaethu atgyfnerthu'r gweithlu'n angenrheidiol.

Roedd yr Aelod yn deall y pwysau ym maes gofal yn y cartref ond holodd os oedd hwn yn bwysau sylweddol ar recriwtio mewn mannau eraill o fewn y Cyngor, gan ystyried dull ymateb cyngor-cyflawn, y byddai atchwanegiadau marchnad yn cael eu cynnig a gofynnwyd a oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gynnig atchwanegiadau marchnad i staff gofal cartref.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd gan Y Cyngor bolisi atchwenegiadau marchnad cyfredol er ei bod yn deall fod un yn cael ei ddatblygu ac y byddai'n cael ei gyflwyno'n hwyrach yn y flwyddyn i'w ystyried gan yr Aelodau. Nododd y byddai cyfarfod nesaf y SOSC2 ar 23 Medi yn ystyried, mewn manylder, y cynlluniau gweithredu yn ymwneud â gofal a chymorth yn y cartref. Roedd hyn yn her, nid yn unig ar hyd a lled Pen-y-bont ond ledled Cymru. Fel Cyfarwyddwr, dyma'r brif flaenoriaeth, ochr yn ochr â rhai materion yn ymwneud â'r gweithlu o fewn gwasanaethau plant. Dengys y gyllideb, ac roedd hwn yn adroddiad ar y gyllideb, nad oedd y gwariant yn y gyllideb yn cyd-fynd â'r meysydd lle'r oedd angen gwariant. Roedd sefyllfa'r gyllideb yn adlewyrchu rhai o'r heriau yn sefyllfa'r gwasanaeth cyffredinol ac un o'r dangosyddion llwyddiant wrth symud ymlaen fyddai os gellid sicrhau fod gwariant y gyllideb yn cyd-fynd yn well.

Holodd Aelod a fyddai gorwariant o recriwtio a llenwi'r swyddi i gyd?

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol fod Y Cyngor wedi gosod y gyllideb i gyflenwi a thalu am y gweithlu y gwerthuswyd fod eu hangen, er y byddai'n ceisio, yn unol â'r caniatâd perthnasol, i recriwtio mwy na'r angen yn y maes hwn. Byddai bod mewn sefyllfa lle'r oedd y gyllideb yn gytbwys yn debygol o olygu ymgyrch recriwtio lwyddiannus er y byddai hyn yn arwain at ychydig o orwario o bosibl. Yr hyn a fyddai wedyn yn edrych i gael ei wneud, o ran gwasanaeth a thelerau ariannol, oedd lleihau'r gwariant hwnnw ar gartrefi gofal i bobl hŷn yn arbennig, gan y gwelwyd bod nifer y bobl yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu trwy leoliad cartref gofal, yn lleihau o un flwyddyn i'r llall. Un o'r risgiau a danlinellwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn eu hadroddiad blynyddol, oedd oherwydd yr heriau mewn gofal cartref y gallent weld pobl yn mynd i gartrefi gofal yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach, ond ni welwyd hyn ac felly byddai'r Gwasanaeth yn edrych i ail-gydbwyso'r gyllideb honno er mwyn darparu mwy o ofal a chefnogaeth yn y cartref, yn unol â gofynion y mwyafrif o bobl.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai gorwariant yn y meysydd gwasanaeth yma'n golygu arbedion yn yr ymyrraeth gofal uwch o ran pecynnau gofal ac y byddent yn hoffi gweld llawer mwy o fuddsoddiad yn y gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Roedd angen sicrhau bod y cyllidebau cywir yn eu lle ar gyfer atal, oherwydd pan fyddai arian yn cael ei fuddsoddi felly, gellid gwrthbwyso costau yn nes ymlaen.

Cyfeiriodd Aelod at 4.2.2 yng nghyswllt y cytundeb Halo gan oli sut oedd Y Cyngor yn mynd i barhau i gadw i'w sybsideiddio.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol, yn nhermau'r partneriaethau gyda Halo a'r partner ymddiriedaeth ddiwylliannol, fod y Cyngor wedi gweithio'n agos iawn gyda nhw drwy gydol y pandemig er mwyn rheoli sefyllfa heriol

o safbwynt darparwyr hamdden ac ymddiriedaeth ddiwylliannol, Roedd y Gwasanaeth wedi gweithio'n agos gyda'r tîm Cyllid a LlC er mwyn gwneud y mwyaf o'r hawliadau o ran caledi dan do ac yn agos gyda Halo o safbwynt eu cynlluniau ailgychwyn ac adfer, wrth i gyfyngiadau gael eu codi, i edrych ar sut i gynnal seiliau aelodaeth a'u cynlluniau ar gyfer cynyddu'r seiliau aelodaeth hynny wrth symud ymlaen. Yn nhermau llywodraethiant, roedd bwrdd ymgynghorol, gydag aelodau'r Cabinet yn aelodau ffyddlon ohono, er mwyn llunio a llywio cyfeiriad y gwasanaethau i'r dyfodol. Byddai'r Cyngor yn disgwyl i Halo ddychwelyd i'r un lefelau gweithredu a pherfformio ag y gwelwyd cyn-Covid ac i adeiladu ar y dysgu drwy'r pandemig, yn cynnwys lle gallent fod yn arloesol a chreadigol, a pharhau i wneud cynigion digidol ochr yn ochr â chynigion corfforol ac i ehangu'r mynediad i faes hamdden a gwasanaethau hamdden ledled y fwrdeistref sirol, gan fod hyn yn allweddol i iechyd a lles y boblogaeth. Yn olaf, i ystyried wedyn beth oedd effaith hynny ar y cytundeb yng nghyswllt y berthynas â'r cymorthdaliadau a'r buddsoddiad a gawsant gan y Cyngor.

Teimlai'r Aelod y byddai'n hynod broblematig ac yn rhywbeth yr oedd angen cadw llygad arno. Roedd hefyd yn bryder fod Halo wedi lleihau'r ddarpariaeth TGCh cyn y pandemig. Roedd yn gwerthfawrogi'r ffaith fod mwyn yn cael ei wneud ar-lein ond roedd yn pryderu ynglŷn â phobl fregus yn cael mynediad i'w ceisiadau ac yn teimlo y byddai problemau'n cynyddu i'r dyfodol.

Nododd Aelod fod y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid wedi briffio'r Aelodau fod Y Cyngor wedi £1m yn y Chwarter 1af, a bod galw uwch na'r cyffredin yn ystod yr 2il Chwarter, a fyddai'n gosod pwysau mawr ar y gyllideb. Cafodd Rheolaeth o'r Gyllideb ei ddisgrifio fel bod yn anwadal ac anrhagweladwy, oedd yn gwbl ddealladwy a bod LlC yn dal i ddarparu cyllid trwy grantiau, yn enwedig i gefnogi gwasanaethau oedolion. O ystyried hynny, dyna oedd gobaith ei gyflawni yn ystod yr ail chwarter, o gofio'r hyn a ddysgwyd o'r chwarter cyntaf.

Nid oedd Y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid yn rhagweld newid mawr yn nhermau chwarter dau, gydag anwadalrwydd yn parhau. Roedd setliad LlC yn debygol o fod yn hwyr unwaith eto, ac roedd hynny'n ffactor bwysig o safbwynt y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac roedd ffyrlo'n debygol o ddatblygu ym mis Medi, a fyddai'n rhoi syniad o'r pwysau ar y gostyngiad yn nhreth y cyngor. Pe bai hynny'n mynd yn ormodol efallai y byddai LlC yn ystyried cynnig rhywfaint o gefnogaeth. Efallai hefyd y byddai arwydd mwy pendant o gyfeiriad chwyddiant a'r cyfeiriad y byddai cyflogau'n debygol o fynd. Roedd yn anodd rhagweld beth allai ddigwydd yn ystod chwarteri tri a phedwar petai'r wlad yn mynd i gyfnod clo arall am y byddai hynny'n cael effaith ariannol sylweddol ar y gyllideb unwaith eto. Roedd angen rhai arbedion erbyn diwedd chwarter dau, felly ym mis Hydref, y gobaith oedd y byddai'n gallu tanlinellu rhai meysydd lle gellid sicrhau toriadau, am fod pwysau o fewn sawl gwasanaeth yn cynnwys addysg, cymunedau a thai yn enwedig, gyda chynnydd yn y lefelau digartrefedd. Roedd angen dod i benderfyniad hefyd ynglŷn ag o ble y gellid cymryd arian o'r cyllidebau, a oedd yn gynyddol anodd gan nad oedd neb yn awyddus i gwtogi ar wasanaethau. Pe na bai arbedion yn cael eu gwneud ac yn wyneb pwysau cynyddol newydd, mae'n bosib y byddai gwir heriau oherwydd yr anallu i ganfod ffynonellau arian eraill. Roedd y cronfeydd wrth gefn yn iach ac roedd y gronfa gyffredinol wrth gefn yn unol â'r lefelau disgwyliedig, heb fod yn ormodol. Roedd cryn dipyn o'r arian mewn cronfeydd wrth gefn wedi'i glustnodi.

Yn y bôn, nid oedd y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid yn credu y gallai'r Cyngor ond gobeithio y byddai LlC yn cadarnhau setliad da. Roedd angen cynllunio arbedion, a gellid symud rhai ohonynt ymlaen flwyddyn yn ôl yr angen, am nad oedd amheuaeth y byddai setliadau'r dyfodol yn heriol.

Cydnabu'r Aelod fod cefnogaeth LlC yn allweddol yn hyn o beth a holodd pa fath o drafodaethau oedd yn mynd ymlaen yng nghyswllt sefyllfa'r Cyngor am ei fod yn teimlo'n siŵr mai'r un oedd y sefyllfa ledled Cymru.

Cydnabu'r Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid fod rhai cynghorau'n wynebu sefyllfa ychydig yn waeth, fod rhai mewn sefyllfa ychydig yn well ond bod cysondeb mawr yng nghyswllt y pethau yr oeddent yn eu cael yn anodd ei hariannu ac roedd yr heriau wedi bod yn debyg iawn yn nhermau ceisiadau i'r gronfa galedi a cholled incwm. Roedd y Swyddogion S151 yn cyfarfod am yn ail wythnos, a bellach yn fisol gyda LlC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLlC), felly roedd cryn ryngweithio, ern ad oedd hynny'n golygu fod gan y swyddogion hynny unrhyw fewnwelediad i gynnwys cyllideb LlC yn y pen draw. Roedd pwysau sylweddol yn wynebu iechyd ledled Cymru yn ogystal â meysydd eraill e.e., adfywiad economaidd, ayb., felly dim ond un llais oedd llywodraeth leol o gwmpas y bwrdd, er ei fod yn llais cryf, gobeithio.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod sylwadau ar lefel wleidyddol yn adlewyrchu'r rhai a wnaed gan swyddogion S151 ledled Cymru ac ar hyn y bryd, oherwydd pwysau sylweddol ar ofal iechyd a chymdeithasol, oherwydd y cysylltiad agos rhyngddynt, roedd ef, yn ogystal ag arweinydd CLLlC yn cyfarfod â'r gweinidog iechyd yn wythnosol er mwyn trafod y pwysau digynsail ar ofal cymdeithasol gan bledio'r achos am fuddsoddiad hir dymor yn y system. Roedd y Gweinidog yn gwrando, ac yn bendant yn cydnabod rôl hanfodol gofal cymdeithasol a hefyd yn nhermau cynnal y GIG hefyd a byddai'n parhau i bwysleisio'r angen am fuddsoddiad mewn gwasanaethau lleol.

Holodd Aelod pa fath o drafodaethau oedd yn cael eu cynnal yn ymwneud â'r lleihad yn incwm treth y cyngor a gofynnodd a ellid sicrhau trafod hyn fel mater o flaenoriaeth

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y mater wedi'i godi a bod y Cyngor wedi derbyn cymorth ychwanegol oddi wrth LlC, ond roedd cydnabyddiaeth o hyd bod y pwysau hwnnw'n parhau. Roedd LlC wedi ymrwymo i adolygu'r ffordd roedd cyllid lleol yn cael ei godi, er bod hyn yn ddyhead tymor hir gan LlC, yn nhermau diwygio treth y cyngor.

Holodd yr Aelod os oedd unrhyw arwydd ar hyn o bryd o'r hyn y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn yn nhermau cymorth.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid mai na oedd yr ateb gonest, gyda chasgliadau treth y cyngor yn dal 1% yn llai ar hyn o bryd. Gosodwyd y gyfradd gasglu ar hanner canran yn is na'r arfer felly roedd hi'n obeithiol y byddai pethau'n gwella yn ystod yr ail chwarter. Roedd Y Cyngor hefyd wedi llwyddo i bresesu ambell wŷs a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn Covid, er bod y gallu i gasglu dyledion wedi lleihau wrth i amser fynd heibio. Mae gobaith o hyd y bydd casgliadau'r flwyddyn ddiwethaf yn cynyddu drwy'r mecanwaith hwnnw, yn ogystal ag ychydig welliant y flwyddyn hon, gyda mis Medi a Hydref yn allweddol.

Cyfeiriodd Aelod at COM19 gan holi os oedd unrhyw wybodaeth bellach am fod y naratif yn annelwig a'i fod yn ceisio deall sut oedd y ffigwr wedi mynd o fod yn felyn i goch.

Sicrhaodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol yr Aelodau fod yr adran yn aros o fewn y gyllideb. O ran y cynllun trwyddedu ar gyfer gwaith ffordd, roedd hyn yn rhagorol, gan fod ardaloedd eraill yn yr adran briffyrdd wedi

canolbwyntio arnynt i sicrhau bod y gyllideb yn aros ar y trywydd iawn. Yn y bôn, byddai'r cynllun hwn yn rhoi gwell rheolaeth dros waith ffordd allanol pan fyddai ymgymerwyr statudol e.e., cwmnïau nwy, ac ati, yn dod draw i wneud gwaith ar y priffyrdd. Y gobaith yw y byddai hyn yn cynhyrchu ychydig arian, ond y prif bwrpas oedd rhoi gwell rheolaeth i'r Cyngor a chyfyngu ar yr amser y byddai ymgymerwyr statudol yn treulio'n cyflawni gwaith ar y ffyrdd. Er bod hyn yn bodoli eisoes yn Lloegr, nid dyna'r sefyllfa yng Nghymru hyd yn hyn ac roedd angen newid yn neddfwriaeth LlG i ganiatáu i hyn ddigwydd. Er y byddai hyn yn parhau i gael ei ddilyn, byddai'n cymryd peth amser i'w gyflawni, er ei fod yn teimlo bod y Cyngor yn cyrraedd yno.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 30, yng nghyswllt codiad cyflog, am 1.75% oedd cynnig y cyflogwyr, gan holi am ddiweddariad ar y sefyllfa a sut y byddai'r Cyngor yn lliniaru'r codiad hwnnw.

Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd hi'n meddwl fod unrhyw beth wedi'i arwyddo'n derfynol o safbwynt cyflog athrawon ac eraill, ond fod y Cyngor wedi cyllidebu rhwng 1.75% a 2% yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, felly petai'n llai na 2% byddai hynny o fewn y gyllideb. Roedd rhyw arwydd y byddai LlG yn cyfrannu tuag at godiad cyflog athrawon, a fyddai'n rhywbeth i'w groesawu'n fawr iawn, a'r awgrym ar hyn o bryd yw y byddai'r Cyngor yn ariannu'r 1% ac y byddai LlC yn cyfrannu'r 0.75% arall, ern ad oedd hynny wedi'i gadarnhau'n ffurfiol eto a bod hynny ond ar gyfer rhan o'r flwyddyn am fod cyflog athrawon yn ymestyn dros ddwy flwyddyn ariannol. Serch hynny, roedd hi'n gymharol gyffyrddus fod y Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer codiadau cyflog.

Cyfeiriodd Aelod at COM1 gan egluro er ei fod yn sôn y gellid sicrhau £300k yn ystod 2021-22, roedd hi'n ymwybodol o drosglwyddiad asedau nad oeddent wedi symud ymlaen, felly roedd yn dymuno gwybod sut y byddai'r targed hwnnw'n cael ei gyflawni.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol yn gyntaf fod y £300k oedd targed arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn hytrach na'r union swm a arbedwyd drwy drosglwyddiadau CAT. Rhoddodd drosolwg cryno i Aelodau o rai o'r trosglwyddiadau CAT llwyddiannus, a oedd ar sail barhaus, tra bod rhai ar drothwy, a byddent yn rhoi dadansoddiad llawn i'r Aelodau o'r rhai a oedd wedi trosglwyddo a'r rhai y gobeithiwyd y byddent yn cael eu cyflawni, i'r aelodau eu gweld. Cadarnhaodd fod person ychwanegol wedi'i recriwtio yn yr adran eiddo, er mwyn helpu gyda'r broses prydlesi ac roedd person arall newydd gael ei benodi i helpu â'r broses CAT yn ychwanegol at y Swyddog CAT. Roedd angen gwneud mwy i sicrhau fod y Gwasanaeth yn parhau i sicrhau'r £300k ar sail barhaus ac roedd angen i sicrhau fod y broses drosglwyddo CAT yn cadw i fynd. Doedd arbedion ddim yn gorffen ar ddiwedd y flwyddyn, a byddai angen nodi arbedion i'r dyfodol, ac yn ddibynnol ar nifer y trosglwyddiadau CAT llwyddiannus, gallai'r rhain wedyn gael eu cyfrif at ei gilydd i weld os oedd unrhyw arbedion eraill y gellid eu gwneud, petai'r rhif hwnnw'n fwy na'r £300k.

O ystyried yr adroddiad uchod, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

1. Dadansoddiad o'r gronfa adfer Covid i'w gylchdroi ymysg yr Aelodau.

2. Rhestr gyflawn a dadansoddiad o'r trosglwyddiadau CAT yn cynnwys y rhai y gobeithiwyd y byddent yn cael eu cyflawni i'w cylchdroi ymysg yr Aelodau.

CYTUNWYD: Fod y Pwyllgor yn nodi sefyllfa arfaethedig ar gyfer 2021-22.

34. ADOLYGIAD Y PANEL YMCHWIL A GWERTHUSO CYLLIDEB

Amlinellodd y Prif Swyddog Ariannol Interim Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad ar yr adolygiad y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb i'r Aelodau. Pwysleisiodd bwysigrwydd presenoldeb Aelodau er mwyn sicrhau fod cytundeb ar y cyd wrth symud ymlaen o safbwynt y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Nid oedd unrhyw gwestiwn gan yr Aelodau.

CYTUNWYD: Fod y Pwyllgor, wedi ystyried yr adroddiad, yn cefnogi'r adolygiad i rôl y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (PYGC).

35. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles brif themâu'r Adroddiad Blynyddol gan ddweud fod y flwyddyn ddiwethaf wedi ymwneud yn helaeth iawn â chreadigrwydd, cryn dipyn o arloesedd ond hefyd gryn dipyn o waith caled gan bobl ar draws yr holl system. Roedd diogelu wedi bod yn gonglfaen erioed, hyd yn oed yn ystod pandemig iechyd cyhoeddus, mae dinasyddion a chymunedau wedi cael eu heffeithio'n ddrwg a nifer o bobl wedi'u colli, ac roedd y darn adfer ac adnewyddu o safbwynt gwasanaethau cymdeithasol, fel rhan o'r ymateb hwnnw, yn mynd i fod yn bwysig dros ben. Roedd gwir angen amser a llonydd ar staff i wella ar eu cyflymder eu hunain, rhag wynebu'r risg o losgi allan, rhywbeth oedd i'w weld yn digwydd ar hyn o bryd am nad oedd pethau wedi arafu o gwbl, ac os rhywbeth, wedi dwysáu wrth symud tuag at ddau chwarter olaf y flwyddyn. Roedd gwasanaethau wedi addasu gan fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, fel y tanlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd sefydlogi ac adfywio'n hanfodol yn ystod y chwe mis nesaf a chadarnhaodd y pwynt fod y gweithlu'n allweddol i'r llwyddiant hwn, gyda mwy o ddibyniaeth ar bob rhan o'r gweithlu nag erioed o'r blaen.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles am gyflwyno'i hadroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'i thîm am eu holl ymdrechion yn ystod blwyddyn heriol dros ben.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'i thîm am lunio'r adroddiad gan nodi, er gwaetha'r flwyddyn ofnadwy, fod cymaint o enghreifftiau da. Apeliodd ar i'r Aelodau oedd yn sgriwtineiddio'r adroddiad i ganolbwyntio ar agweddau dynol yn nhermau ariannol a'r ffigyrau.

Pwysleisiodd Aelod y mater o staffio cyffredinol a gofyn beth oedd yr awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau staff.

Cydnabu Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod darn o waith cenedlaethol yn ymwneud â'r gweithlu, yn gweithio'n agos gyda LlC a chyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn gyntaf, roedd hyn i hyrwyddo'r sector, yn ail i edrych ar y materion anodd iawn, megis gweithredu blaenoriaeth maniffesto LlC o amgylch cyflog byw go iawn i weithwyr gofal ac yn drydydd i ystyried safonau proffesiynol, gan weithio'n agos iawn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, o ran cofrestru nid yn unig staff gwaith cymdeithasol proffesiynol, ond gweithwyr gofal. Roedd yn bwysig iawn fod Pen-y-bont yn chwarae rôl flaenllaw ar y llwyfan cenedlaethol ac yn cyfrannu at ac yn cyd-gynhyrchu polisi yn ôl yr angen. Roedd Pen-y-bont yn awyddus i hyrwyddo Pen-y-bont i fod mor llwyddiannus â phosibl wrth gadw a recriwtio'r gweithlu ym Mhen-y-bont. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wedyn at y gwahanol gynlluniau gweithredu o

safbwynt recriwtio, ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac yna'r gweithlu gwaith cymdeithasol.

Holodd yr Aelod beth fyddai'n digwydd pe na bai pobl yn cynnig eu hunain, a oedd yn bryder iddi. Oedd pobl yn cynnig eu hunain eisoes ac yn mynegi diddordeb yn yr hyn oedd yn cael ei rannu ac unrhyw hysbysebion swyddi.

Cydnabu Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod hyn yn anodd oherwydd eu bod yn cystadlu mewn maes gorlawn o safbwynt gweithwyr gofal cymdeithasol a'r gweithlu gwaith cymdeithasol wrth gychwyn o fan lle'r oedd llawer o bobl yn gyndyn o gynnig eu hunain i wneud y swyddi dan sylw. Nododd fod nifer go sylweddol o bobl wedi cynnig am swyddi gweithwyr cefnogi gofal iechyd ond nad oedd cymaint yn cynnig am swyddi gyda'r awdurdod lleol ym maes gofal na gweithio yn y sector annibynnol, felly roedd angen deall a gwneud popeth o fewn y cynllun gweithredu i sicrhau fod Pen-y-bont mor ddeniadol â phosibl. Roedd heriau yn y tymor byr ac roedd yr Awdurdod yn edrych ar y modd y sicrhawyd gweithwyr drwy asiantaethau, a allai achosi anawsterau, ond cyflawni dyletswyddau statudol o safbwynt gwaith cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol oedd bwysicaf. Roedd angen gwneud hynny yn y modd gorau posib nad oedd yn amharu ar y gweithlu wrth eu cefnogi ar yr un pryd. Sicrhau eu bod yn aros yn eu swyddi oedd y ffactor bwysicaf oll, ac ni ddylai hyn achosi mwy o heriau o safbwynt y gweithlu presennol. Cyfeiriodd at yr angen i edrych ar sut y gellir cefnogi anghenion pobl mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, roedd Pen-y-bont yn hynod lwyddiannus ym maes technoleg gynorthwyol a'r angen i barhau i hybu hynny ac edrych ar sut y mae'r angen a'r galw am wasanaethau'n cael eu rheoli yn y modd mwyaf effeithiol a chost effeithiol. Roedd hyn yn her wirioneddol ac roedd gwir angen dull cyngor cyfan a setiau o gamau gweithredu wedi'u halinio ynghylch yr hyn y gellid ei wneud yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar nifer o faterion bod nifer o faterion yr oedd hi'n awyddus i ymhelaethu arnynt gan gynnwys diffyg graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, a oedd yn hynod niweidiol i'r awdurdod lleol oherwydd nid yn unig y gystadleuaeth oddi wrth awdurdodau cyfagos, ond gydag awdurdodau ledled y DU, o safbwynt staff profiadol. Sicrhaodd yr Aelodau fod trafodaethau helaeth yn cael eu cynnal o fewn y gweithlu gofal a gofal cymdeithasol. Roedd angen dangos empathi â'r gweithlu am na ddylai pobl ddisgyn drwy'r cylch. Roedd angen i'r Cyngor gyflenwi ei anghenion statudol ac ar hyn o bryd, mae'r gweithlu'n gweithio'n daer i sicrhau hynny.

Holodd y Cadeirydd yr Aelodau os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach yn ymwneud â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, am ei bod hi'n ymwybodol y gallai sylwadau'r Aelodau helpu i gryfhau'r adroddiad.

Cydnabu Aelod ei fod yn hoffi fformat yr adroddiad gan ddangos ei edmygedd o waith yr adran gyfan yn ystod yr hyn a ddisgrifiwyd fel cyfnod heriol. Serch hynny, cydnabu nad oedd cydbwysedd o fewn y sir a bod ardaloedd oedd yn wynebu amddifadedd sylweddol o fewn y sir a holodd sut y byddai dyletswydd cymdeithasol-economaidd yn effeithio ar y gwaith nawr ac i'r dyfodol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles o safbwynt cymhwyso'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd, fel gyda llawer o afiechydon, nad oedd Covid wedi bod yn glefyd cydradd gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig wedi'u heffeithio'n fwyaf difrifol. O safbwynt gofal cymdeithasol, wrth edrych ar y gwasanaethau, roedd angen sicrhau dealltwriaeth lawn o'r ddyletswydd a'i bod yn cael ei gweithredu oherwydd y gall olygu atebion gwahanol mewn rhai rhannau o'r fwrdeistref sirol mewn cymhariaeth ag eraill. Mewn rhai

rhannau o'r fwrdeistref sirol, gallai hyn olygu canolbwyntio ar y set gywir o ymyriadau yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar gefnogi pobl o safbwynt eu cysylltu, ond hefyd gwneud gwaith datblygu cymunedol ymarferol lle'r oedd diffyg yn yr hyn oedd yn digwydd yn naturiol o fewn y cymunedau. Mewn rhannau eraill o'r fwrdeistref sirol, nid oedd angen i'r Cyngor gymryd rôl mor flaenllaw mewn gwirionedd, e.e. Grŵp Strategol Covid-19 Porthcawl, lle ddaeth y gymuned ei hun i'r adwy. Roedd y Cyngor yn rhan o grŵp oedd yn ymwneud ag anghydraddoldebau o safbwynt canlyniadau ac unrhyw anghydraddoldebau o ran cod post, gan edrych ar ymyriadau ar sail tystiolaeth er mwyn gallu ymdrin â'r materion yma yn y modd cywir.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 91 yr adroddiad gan nodi fod y nifer o achosion wedi disgyn o 6810 i 4742 gan ofyn a oedd hyn yn ymwneud â Covid neu a oedd y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir a bod y nifer o achosion yn disgyn yn gyffredinol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol o safbwynt nifer yr achosion, ei bod hi'n flwyddyn anarferol iawn i edrych ar dueddiadau oherwydd bod cyfnodau yn ystod y flwyddyn pan oedd rhai o'r atgyfeirwyr arferol yn gweithredu'n wahanol, e.e., ysgolion, gofal sylfaenol, ymweliadau iechyd, ayb. Roedd normaleiddio'n dechrau dod i'r amlwg, wrth i wasanaethau ailddechrau yn ôl y disgwyl ac roedd ychydig angen a galw nad oedd yn dod i'r amlwg yn ddigon cynnar ac a oedd nawr yn rhoi pwysau ar wasanaethau. Ond y llynedd, roedd y galw'n amrywio yn dibynnu ar gyfnod y clo, ac roedd hynny'n effeithio ar os oedd atgyfeiriadau'n digwydd ai peidio.

Nododd yr Aelod fod nifer o blant ar y gofrestr diogelu plant wedi cynyddu o 165 i 201 gan holi os oedd cynnydd wedi bod oherwydd Covid.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles o safbwynt y gofrestr diogelu plant a'r nifer o gofrestriadau, ei bod hi'n ddigon cyffyrddus â'r lefel. Roedd y Cyngor yn un o'r chwarteli uwch o ran nifer y plant ar y gofrestr diogelu plant yng Nghymru ac roedd ganddo hyder yn hynny o ran yr amddiffyniad a roddwyd i blant ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd yn hollol iawn a phriodol bod y gofrestr yn parhau i fod yn eithaf uchel ar hyn o bryd, o ystyried yr heriau yr oedd plant a theuluoedd wedi'u hwynebu ac o ystyried y ffaith y gallai fod ychydig oedi wedi bod wrth i blant a theuluoedd ddod ymlaen ac o ran y gallu bryd hynny i ymyrryd yn statudol â theuluoedd, ond roedd pob cam o dan y gofrestr amddiffyn plant yn wirfoddol.
Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 93 o'r adroddiad gan ofyn am eglurhad pellach o safbwynt y cyfanswm o 296 adroddiad o blant sy'n diflannu'n ystod y flwyddyn, a'r cyfanswm o 99 o blant sy'n diflannu yn ystod y flwyddyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod proses yn cael ei gweithredu, pryd bynnag y byddai plentyn neu berson ifanc yn diflannu am gyfnod o amser, byddent yn gweithio'n agos â Heddlu De Cymru, gan ymwneud yn enwedig â sut i'w codio. Roedd rhai plant a phobl ifanc yn diflannu'n lled gyson a byddai rhai'n peri risgiau eithaf sylweddol iddynt hwy eu hunain, gyda'r mathau hynny o sefyllfaoedd yn cael eu rheoli mewn ffordd amlasiantaethol gan edrych ar gefnogaeth a beth oedd y cynllun rheoli risg yng nghyswllt y plentyn neu'r person ifanc hwnnw. Ni chredai fod unrhyw blant na phobl ifanc ar goll ar y pryd.

Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 99 gan nodi yng nghyswllt Maple Tree House fod nifer y plant oedd yno yn ystod y flwyddyn wedi disgyn o 22 i 9, gyda phlant sy'n cael eu rhoi mewn llety â gofal yn dal yr un nifer. Holodd os oedd y ffigyrau yma oherwydd Covid neu reswm arall a beth oedd y rheswm am symud y gwasanaeth presennol i ddarpariaeth bwrpasol.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai adleoli Maple Tree House Lles yn cynnig capasiti ychwanegol. O fewn y ddarpariaeth, roedd darpariaeth frys a darpariaeth tymor byr, a'r ddau beth yn hanfodol a'r ddau'n well o gael eu rheoli'n well ar wahân. Roedd angen adeilad gwell o lawer ar gyfer hynny, yn ogystal â lleoliad a fyddai hefyd yn gallu hwyluso cydleoliad gydag elfennau eraill o'r gwasanaethau lleoliad. Byddai hyn yn galluogi'r tîm maethu i ddod i adnabod y plant a'r bobl ifanc wrth iddynt fynd drwy'r asesiad manwl a thrylwyr yn yr uned asesu. Roedd rhai cynlluniau cyffrous ynglŷn â hyn er iddi nodi fod ychydig oedi wedi bod cyn gweithredu, er bod hyn yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen.

Yn dilyn ymlaen o hyn, nododd yr Aelod, yn dilyn archwiliad o Maple Tree House, fod adroddiad yn y wasg wedi tynnu sylw at broblemau a bod angen gwella. Roedd hi'n siomedig nad oedd yr adroddiadau yn y wasg wedi adrodd ynglŷn ag unrhyw un o'r gwelliannau a gofynnodd am eglurhad ynghylch presenoldeb nid yn unig yn Maple Tree House, ond pob lleoliad gofal plant ac oedolion, yn enwedig gan nad oedd yr Aelodau'n gallu ymweld ar hyn o bryd.

Cydnabu Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau ynghylch ymweliadau â lleoliadau a chadarnhaodd mai'r ddau unigolyn cyfrifol am gartrefi gofal mewnol oedd y Pennaeth Gofal Oedolion o safbwynt cartrefi gofal oedolion a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol o safbwynt y ddarpariaeth ar gyfer plant. Roedd y ddau wedi parhau wrth y llyw drwy gydol y pandemig er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau unigol, oedd yn cynnwys ffocws cryf ar sicrhau ansawdd, gan gysylltu ag adnoddau. Serch hynny, ar adegau yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid i hyn ddigwydd yn rhithiol gyda chofnodion helaeth, ond wrth i'r risgiau leihau, cynhaliwyd yr ymweliadau sicrhau ansawdd hynny wyneb yn wyneb fwyfwy, a nododd ei bod hi ei hun ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar wedi ymweld â'r lleoliadau eu hunain yn ddiweddar. Eglurodd y byddai'n gweithio ar y cyd â'r Aelodau o safbwynt ailgyflwyno rotas ymweld, am ei bod yn rhan hynod bwysig o'u gwaith o safbwynt cyflawni rhianta corfforaethol a chyfrifoldebau diogelu eraill.

Eglurodd o safbwynt Maple Tree House ei hun, nad oedd y Cyngor mewn unrhyw stad o ymyrraeth ffurfiol dan AGC ac y byddai'n parhau i adrodd yn ôl drwy'r pwyllgor rhianta corfforaethol. Roedd AGC wedi parhau i archwilio, o safbwynt rheolaethol, drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i wasanaethau wedi'u rheoleiddio ac wedi ymgymryd â gwiriad sicrhau ansawdd ddechrau mis Ebrill, gydag adroddiad i'w gyhoeddi yn yr hydref.

Sicrhaodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr Aelodau fod ymweliadau'n digwydd a bod yr un lefel o sgriwtini i'w weld hefyd. O safbwynt Maple Tree House, derbyniwyd adroddiad gan y pwyllgor rhianta corfforaethol, yn ymwneud ag archwiliad AGC, gyda diweddariad ar y gwelliannau a oedd wedi'u gwneud ac nad oedd y Cyngor o dan unrhyw fesurau arbennig. Roedd hi'n siomedig gyda'r adroddiadau a gofynnodd i'r Aelodau rannu'r cywiriad i'r wybodaeth.

Cyfeiriodd Aelod at y polisi diogelu ar dudalen 42gan nodi fod tudalen 57, paragraff 2 yn datgan 'fel swyddog statudol, mae angen i mi adolygu, atgyfnerthu a chryfhau adnoddau diogelu', gan ofyn sut oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn awgrymu gwneud hynny.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles oherwydd bod hwn yn bolisi diogelu corfforaethol / cyngor cyfan fod angen sicrhau

fod y wybodaeth gywir yn cael ei dderbyn gan bob rhan o'r cyngor, a bod angen i bob cyfarwyddiaeth ddeall eu rhyngwyneb â diogelu a chyfrifoldebau diogelu. Er mwyn gwneud hynny roedd angen y trefniadau llywodraethu cywir. Un o'r pethau roedd hi'n edrych i wneud oedd sefydlu bwrdd diogelu corfforaethol fyddai'n gweithredu islaw'r CMB a'r CCMB, gan adrodd y wybodaeth gywir yn ymwneud â diogelu iddynt a chyda swyddog i gefnogi hynny.

Cydnabu'r Aelod hyn ond teimlai na ddylai'r cyfrifoldeb am ddiogelu gael ei gyfyngu i Swyddogion yn unig. Roedd gan Aelodau hefyd rôl i'w chwarae, nid yn unig i ymweld â chartrefi gofal, ond yn nhermau adolygu'r polisi corfforaethol yn ystod y broses sgriwtini, ac awgrymodd fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried wrth drafod gweithgareddau'r bwrdd diogelu.

Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod hyn yn fuddiol ac un o'r pethau o fewn y polisi diogelu newydd oedd y byddai adroddiad diogelu blynyddol yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn ymwneud ag effeithiolrwydd diogelu corfforaethol. Byddai hyn yn tynnu llawer mwy o fanylion nag y llwyddodd i wneud drwy benawdau'r adroddiad blynyddol, effeithiolrwydd diogelu corfforaethol, a dyma fyddai un o ddyletswyddau allweddol y swyddogion newydd. Y peth arall sy'n cael ei ystyried ar y cyd, rhwng swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac Addysg a Chymorth Cynnar, oedd sicrhau fod rhyw fath o hyfforddiant pellach ar gyfer Aelodau yn ymwneud â diogelu yn ystod y tymor nesaf ar gyfer Aelodau. Mae angen i hyn fod mewn cyd-destun penodol yng nghyswllt rôl yr Aelodau, yn hytrach nac e-ddysgu cyffredinol.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar unwaith eto pa mor bwysig oedd hi i Aelodau etholedig fynychu bob hyfforddiant diogelu oedd ar gael yn enwedig rheini oedd yn gweithredu fel llywodraethwyr AAL, gan nad oedd yr hyfforddiant yn orfodol ar hyn o bryd.

CYTUNWYD: Fod y Pwyllgor wedi nodi cynnwys drafft Adroddiad Blynyddol 2020/21 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

36. ADRODDIAD SGRIWTINI BLYNYDDOL

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Democrataidd – Sgriwtini ddrafft o'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol gan egluro mai diben yr adroddiad oedd cyflwyno drafft o'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol i'r pwyllgor oedd yn ymdrin â chyfnod o ddwy flynedd o 2019-20 a 2020-21. Roedd angen i Sgriwtini gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor gydag adolygiad o sut roedd y swyddogaeth wedi gweithredu yn ystod y cyfnod blaenorol. Atodwyd y drafft o'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol fel Atodiad A ac roedd yn cyflwyno manylion yn ymwneud â'r heriau a chanlyniadau ar gyfer pwyllgorau a phaneli sgriwtini yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ogystal ag adnabod rhai meysydd ffocws ar gyfer gwella er mwyn sicrhau fod sgriwtini'n parhau i ddatblygu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer trigolion Pen-y-bont. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried p'un ai oedd yr adroddiad drafft a gasglwyd a'i baratoi gan y Tîm Sgriwtini'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan y swyddogaeth sgriwtini yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cyn symud ymlaen, ar sail gwelliannau, i'r Cyngor.

Diolchodd Cadeiryddion COSC, SOSC1, SOSC2 a SOSC yr Uwch Swyddog Democrataidd – Swyddog Sgriwtini a Diogelwch am eu hadroddiad a'u gwaith caled, gan gydnabod effaith y swydd wag o fewn y tîm arnynt.

CYTUNWYD: Fod y Pwyllgor yn cefnogi'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol a atodwyd fel Atodiad A, o gywiro'r gwall sillafu, ar gyfer ei gyflwyno i ystyriaeth Y Cyngor.

37. DIWEDDARIAD RHAGLEN GWAITH BLAEN

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr Eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw Eitemau pellach i'w hystyried ar y Rhaglen Waith Blaen ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd gan ddefnyddio'r ffurflen y cytunwyd arni, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

CYTUNWYD: Fod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'i Rhaglen Waith Blaen yn Atodiad A; wedi nodi'r Rhaglen Waith Blaen ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg Pwnc a Sgriwtini i'w ystyried yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor mis Gorffennaf penodol yn Atodiad B, C & D a nodi'r Daflen Argymhellion Gweithredu Monitro er mwyn tracio ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfodydd blaenorol, Atodiad E.

38. EITEMAU BRYS

Dim